Ddeddf Addysg Bellach Ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

2014 dccc 1

Nodiadau Esboniadol

Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Act 2014

2014 anaw 1

Explanatory Notes

£5.75

DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH (LLYWODRAETHU A GWYBODAETH) (CYMRU) 2014

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 03 Rhagfyr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol, ni roddir unrhyw esboniad na sylw pellach.

3. Mae'r pwerau i wneud y Ddeddf i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud darpariaeth ar gyfer y Ddeddf ac mewn cysylltiad â hi, yn rhinwedd Atodlen 7, paragraff 5 (Addysg a hyfforddiant).

Y CEFNDIR

4. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i roi effaith i gynigion i gynyddu rhyddidau colegau, gan roi rhagor o reolaeth iddynt dros eu trefniadau llywodraethu a diddymu eu hunain. Nid yw'n newid prif bwerau colegau i ddarparu addysg bellach, addysg uwch ac (o fewn rhai terfynau) addysg uwchradd. Un o'r ystyriaethau allweddol sy'n llywio'r darpariaethau yw penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu SABau fel rhan o lywodraeth ganolog at ddiben Cyfrifon Gwladol.

5. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn moderneiddio'r ffordd y caiff cyllid myfyrwyr ei ddarparu drwy wneud y broses yn fwy effeithlon. Bydd y Ddeddf yn cyfrannu at hyn drwy sefydlu sail gyfreithiol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ac eraill sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, neu sy'n arfer eu swyddogaethau) mewn cysylltiad â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr.

6. Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2012 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn ym mis Mawrth 2013.

RHESTR O'R TERMAU A'R BYRFODDAU A DDEFNYDDIR YN Y NODIADAU ESBONIADOL

7. Defnyddir y termau a'r byrfoddau a ganlyn yn y Nodiadau Esboniadol.

CAB – corfforaeth addysg bellach
ONS – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
SAB – sefydliad addysg bellach

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU A'R ATODLENNI

Adran 1 – Benthyca a buddsoddi gan gorfforaethau addysg bellach

8. Mae adran 19 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth i CABau gael amryw bwerau atodol. Effaith y diwygiadau y mae'r adran hon yn eu gwneud i adran 19 yw dileu'r gofyniad i CABau yng Nghymru gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn iddynt arfer pwerau atodol penodol. Y pwerau o dan sylw yw eu pwerau i fenthyca arian, i ffurfio cwmni neu i fuddsoddi mewn cwmni, neu i ddod yn aelod o sefydliad elusennol corfforedig at ddibenion cynnal sefydliad addysgol.

Adran 2 – Offeryn ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg bellach

9. Mae'r adran hon yn diwygio adran 20 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau gydymffurfio â gofynion penodedig. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 (sy'n disodli Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) i wneud darpariaeth newydd, sy'n llai rhagnodol, ynghylch cynnwys offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru.

10. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno adran newydd yn lle'r adran 22 a 22ZA gyfredol o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Effaith hyn yw dileu pŵer Gweinidogion Cymru i addasu, dirymu neu ddisodli offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru a rhoi'r pŵer i CABau yng Nghymru addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu.

Atodlen 1 – Offeryn ac erthyglau llywodraethu

11. Mae Atodlen 1 yn disodli Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r Atodlen 4 newydd yn nodi'r elfennau hanfodol y mae'n ofynnol i SABau eu cynnwys yn eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu. Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i SABau nodi, er enghraifft, rolau a chyfrifoldebau personél allweddol a sut y gall SAB newid ei offeryn a'i erthyglau llywodraethu. Bydd rhaid i gyrff llywodraethu SABau gynnwys staff a myfyrwyr fel llywodraethwyr ynghyd â chynrychiolwyr busnesau lleol neu gyflogwyr lleol. Bydd rhaid hefyd i SAB ymgynghori â phersonau yn ei ardal leol ynghylch yr addysg y mae'n ei darparu a'r modd y caiff ei gwricwlwm ei gynllunio.

Adran 3 – Diddymu corfforaethau addysg bellach

12. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â diddymu CABau drwy roi adrannau 27 i 27B newydd yn lle'r adrannau 27 i 27C presennol o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Effaith hyn yw dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu CABau a throsglwyddo eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i ddarparwr addysg arall. Yn lle hynny, bydd gan CABau y pŵer i'w diddymu eu hunain, cyhyd â'u bod wedi cyhoeddi'r cynigion a chynnal ymgynghoriad llawn gan ystyried barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, yn unol â rheoliadau. Mae hefyd yn

rhoi'r gallu i CABau drosglwyddo eu heiddo, eu hawliau neu eu rhwymedigaethau i gorff arall at ddibenion addysgol, a chyda chydsyniad y corff hwnnw. Caiff y math o gorff ei bennu mewn rheoliadau.

Adran 4 – Sefydliadau dynodedig: offeryn ac erthyglau llywodraethu

13. Mae adrannau 29B a 29C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth ynghylch offerynnau ac erthyglau sefydliadau dynodedig (ac eithrio'r rhai a gynhelir gan gwmni neu sy'n esempt o dan y gorchymyn dynodi). Mae'r adran hon yn rhoi adran 29B newydd yn lle'r adrannau 29B a 29C cyfredol. Effaith hyn yw dileu'r gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i sefydliadau dynodedig allu addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu a dileu pŵer Gweinidogion Cymru i addasu a disodli erthyglau ac offerynnau llywodraethu. Yn lle hynny, bydd gan sefydliadau dynodedig yng Nghymru y pŵer i addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu eu hunain. Bydd gofynion yr Atodlen 4 newydd i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i disodlwyd gan Atodlen 1 i'r Ddeddf hon) yn gymwys i'r offerynnau a'r erthyglau llywodraethu.

14. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adrannau 29A ac 31 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel nad oes rhaid mwyach i offerynnau ac erthyglau llywodraethu cyntaf sefydliadau dynodedig ar ôl eu dynodi gynnwys darpariaeth ynghylch aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru.

Adran 5 – Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â sefydliadau o fewn y sector addysg bellach

15. Mae'r adran hon yn diwygio adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn SAB (drwy wneud newidiadau i'r corff llywodraethu neu drwy ddyroddi cyfarwyddiadau), os ydynt o'r farn bod y SAB yn cael ei gamreoli neu'n methu mewn rhyw ffordd arall. Mae'r diwygiad yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau ymyrryd, yn gallu cyfarwyddo corff llywodraethu CAB i ddefnyddio ei bwerau newydd i'w ddiddymu ei hun. Os bydd hyn yn digwydd, caiff y CAB ei thrin fel pe bai wedi dilyn y gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori a nodir yn adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i hamnewidiwyd gan adran 3 o'r Ddeddf).

16. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu adran 57A o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio, cyhoeddi ac adolygu datganiad polisi mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau ymyrryd.

Adran 6 – Diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â chyfarwyddiadau

17. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 33J a 33L o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adrannau 116I a 116K o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â chynllunio a darparu cwricwla lleol yng Nghymru, sef cwricwla awdurdod lleol cyfan a sefydlir gan awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru. Effaith y diwygiadau yw dileu'r gofyniad i SABau gydymffurfio â chyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio cwricwla lleol a chydweithio i ddarparu cwricwla lleol. Fodd bynnag, rhaid i SABau barhau i roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chynllunio a darparu cwricwla lleol.

Adran 7 – Diddymu pŵer i reoleiddio cyrsiau addysg uwch yn y sector addysg bellach

18. Mae'r adran hon yn diddymu adran 139 o Ddeddf Addysg 2002 fel na chaiff Gweinidogion Cymru bellach wneud rheoliadau sy'n gwahardd SABau rhag darparu cyrsiau addysg uwch heb eu cymeradwyaeth ac sy'n rheoleiddio niferoedd a chategorïau myfyrwyr ar gyrsiau o'r fath.

Adran 8 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

19. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i amryw Ddeddfau a Gorchymyn a Mesur, o ganlyniad i adrannau eraill yn y Ddeddf hon.

Adran 9 – Cyflenwi gwybodaeth mewn cysylltiad â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr

20. Mae Rhan 2 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch. Mae adran 24 o'r Ddeddf honno yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i roi gwybodaeth mewn perthynas â gweithrediad y cynllun benthyciadau i fyfyrwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon (ac i'r rhai y maent wedi trosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau penodol iddynt), ond nid i Weinidogion Cymru.

21. Mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a gallant ddirprwyo'r swyddogaethau hynny o dan adran 23 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (e.e. i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr).

22. Yn absenoldeb sail gyfreithiol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth o'r fath i Weinidogion Cymru, rhaid i ymgeiswyr am gymorth i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o incwm yr aelwyd wrth wneud cais am gymorth i fyfyrwyr. Nid yw'r trefniant cyfredol yn caniatáu i dystiolaeth o incwm yr aelwyd gael ei wirio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

23. Mae'r adran hon yn diwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn ychwanegu Gweinidogion Cymru a'r personau neu'r cyrff hynny sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru neu sy'n arfer swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr ar eu rhan, fel personau y gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth iddynt. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyflenwi gwybodaeth o dan y ddarpariaeth hon ar incwm yr aelwyd fel y bydd y rhai sy'n cael yr wybodaeth yn gallu gwirio ffigurau a ddarperir mewn ceisiadau am gymorth ariannol sy'n dibynnu ar brawf modd heb fod angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol.

24. Mae'r adran hon hefyd yn estyn adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel bo pŵer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i rannu gwybodaeth yn ymwneud â grantiau a wneir gan Weinidogion Cymru yn ogystal â benthyciadau.

Adran 10 – Adolygu gweithrediad y Ddeddf

25. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2016, adolygu gweithrediad y Ddeddf. Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried effaith y Ddeddf ar ariannu addysg a ddarperir i'r rhai

sy'n 16 i 18 oed mewn SABau yng Nghymru. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried effaith y Ddeddf ar y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ac anghenion dysgu ychwanegol mewn SABau yng Nghymru. Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys meysydd eraill yn yr adolygiad hefyd.

Atodlen 1

26. Mae Atodlen 1 wedi ei chyflwyno drwy adran 2.

Atodlen 2

27. Mae Atodlen 2 wedi ei chyflwyno drwy adran 8.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

28. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:
http:www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.html

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwyno	29 Ebrill 2013
Cyfnod 1 – Dadl	24 Medi 2013
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	24 Hydref 2013
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	3 Rhagfyr 2013
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	3 Rhagfyr 2013
Y Cydsyniad Brenhinol	27 Ionawr 2014

©℗Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs:0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10903-0

9 780348 109030